# DATGANIAD DARPARWR

**Nodiadau ar gyfer Arweinydd yr Ymweliad**

- Fe ddylech chi gwblhau Rhan 1 ac yna anfon y ffurflen at y darparwr i'w chwblhau.
- Ni ddylech chi anfon y ffurflen hon at ddarparwr sy'n meddu ar Fathodyn Ansawdd Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth dilys, oni bai bod angen cadarnhad arnoch o'r cwestiynau yn Adran A. Gellir bwrw golwg ar fanylion y bathodyn a'i ddeiliaid yma lotcqualitybadge.org.uk.
- Os oes angen cyngor arnoch ynghylch dehongliad yr wybodaeth gan y darparwr ar y ffurflen hon, fe ddylech chi gysylltu gyda Chydlynydd Ymweliadau Addysg (EVC) eich sefydliad.

**Nodiadau ar gyfer y Darparwr**

- Diolch yn fawr am gwblhau'r ffurflen hon. Diben y ffurflen yw cynorthwyo Arweinydd yr Ymweliad i gadarnhau eich bod yn bodloni'r safonau gofynnol.
- Gofynnwn yn garedig ichi gwblhau Rhan 2 a'i dychwelyd at Arweinydd yr Ymweliad yn y sefydliad sydd wedi'i henwi isod.
- Gallwch ganfod mwy am y canllawiau y mae'n rhaid i sefydliadau a'r Arweinwyr Ymweliadau gydymffurfio gyda nhw ar oeapng.info – gweler y ddogfen 4.4hCYM "Defnyddio Darparwyr Allanol" yn benodol.

## RHAN 1: I'w chwblhau gan Arweinydd yr Ymweliad

| | |
|---|---|
| Enw a chyfeiriad y sefydliad (ysgol/ gwasanaeth) | |
| E-bost | |
| Enw Arweinydd yr Ymweliad | |
| Enw'r darparwr | |
| Dyddiad(au) arfaethedig yr ymweliad(au) [naill ai dyddiadau penodol, neu ystod dyddiadau] | |

## RHAN 2:  I'w chwblhau gan y darparwr

Ystyriwch y cwestiynau canlynol ac ymatebwch gyda naill ai YDW/YDYN/YDY/OES, NA neu Amherthnasol, neu nodwch yr wybodaeth benodol sydd ei hangen. Rhaid i chi ymateb i BOB cwestiwn. Os hoffech chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol, ychwanegwch seren (*) at eich ymateb, a nodwch yr wybodaeth yn y blwch ar waelod y ffurflen.

Os ydych chi'n meddu ar Fathodyn Ansawdd Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth (LOtC) dilys, dim ond Adran A a'r Cadarnhad sydd angen ichi ei gwblhau.

| **ADRAN A**<br>**I'w chwblhau ar gyfer ymweliadau o bob math** | | |
|---|---|---|
| 1. | **Bathodyn Ansawdd Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth** | |
| | Ydych chi'n meddu ar Fathodyn Ansawdd Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth? | Na |
| 2. | **Hepgoriadau / Ymwadiadau** | |
| | Ydych chi'n gwarantu na fydd gofyn i'r sefydliad, y cyfranogwyr nac ychwaith y rhieni gytuno gydag unrhyw hepgoriad neu ymwadiad sydd â'r nod o gyfyngu eich atebolrwydd dros farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i'ch esgeulustod? | Ydym |

| **ADRAN B**<br>**I'w chwblhau ar gyfer ymweliadau o bob math** | | |
|---|---|---|
| **3.** | **Yswiriant** | |
| | Ydych chi'n meddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a fyddai'n gyfredol yn ystod yr ymweliad arfaethedig ac sy'n ymdrin â'r holl weithgareddau a ddarparir yn uniongyrchol a'r holl weithgareddau sydd wedi'u is-gontractio? | Ydw |
| | Os ateboch chi Ydw, beth yw ei gyfyngiad indemniad? | £10  M |
| 4. | **Polisïau Iechyd, Diogelwch ac mewn Argyfwng** | |
| | Ydych chi'n cydymffurfio gyda'r rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol, gan gynnwys y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974 a'r Rheoliadau cysylltiedig, ynghyd ag yn meddu ar bolisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig ac asesiadau risg wedi'u cofnodi sydd ar gael i'w harchwilio? | Ydym |
| | Ydych chi'n meddu ar weithdrefnau ar gyfer damweiniau ac argyfyngau, ac ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau a damweiniau? | Ydym |
| 5. | **Cerbydau** | |
| 1. | Ydy'r holl gerbydau y byddwch chi'n eu defnyddio'n addas i'r ffordd, ac ydyn nhw'n bodloni'r gofynion rheoliadau yn y wlad y cân nhw eu defnyddio a'r rheoliadau ynghylch seddi teithwyr a gwregysau diogelwch? | Dim yn berthnasol |
| 6. | **Staffio** | |
| | Ydych chi'n meddu ar broses recriwtio ac ymgysylltu cadarn i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phobl ifanc, gan gynnwys gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd uwch a rhestr wirio waharddedig ar gyfer unrhyw staff sydd ynghlwm â gweithgarwch a reoleiddir? | Ydym |

| | | |
|---|---|---|
| | Oes yna gyfleoedd rheolaidd i'ch staff a staff y sefydliad gysylltu gyda'i gilydd? | Oes |
| | A oes hyblygrwydd digonol i wneud newidiadau radical i'r rhaglen os yn briodol, ac a fyddai staff y sefydliad yn cael eu hysbysu o'r rhesymau dros unrhyw newidiadau o'r fath? | Oes |
| **7.** | **Diogelu Data** | |
| | Ydych chi'n cydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol? | Ydym |
| | Ydych chi'n meddu ar bolisi preifatrwydd sy'n egluro sut byddwch chi'n rhannu, defnyddio, storio a diogelu unrhyw ddata personol y bydd y sefydliad yn ei rannu gyda chi a sut byddwch yn ei ddileu neu'n ei ddychwelyd yn y pendraw? | Ydym |
| | Ydych chi'n ymrwymo i sicrhau na chaiff unrhyw luniau o gyfranogwyr eu cymryd neu eu defnyddio er dibenion marchnata, neu eu cyhoeddi mewn unrhyw ffordd, heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y sefydliad a'r cyfranogwyr (neu eu rhieni os ydy'r cyfranogwyr o dan 18 oed)? | Ydym |
| 8. | **Llety (gan gynnwys gwersylla)** | |
| | Ydy'r llety yn y DU yn cydymffurfio gyda'r gofynion rheoleiddio tân cyfredol (Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio, (Diogelwch Tân) 2005)? | Dim yn berthna sol |
| | Ydych chi wedi archwilio'r holl letyau tramor sydd i'w defnyddio er mwyn cadarnhau eu bod yn bodloni gofynion cyfreithiol y wlad dan sylw a bod trefniadau diogelwch tân a diogelwch ar waith sydd gyfwerth â'r rheiny sy'n ofynnol yn y DU, ac a oes cofnodion o'r archwiliadau hyn ar gael? | Dim yn berthna sol |
| | A oes yna drefniadau diogelwch ar waith er mwyn atal pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn i'r llety? | Dim yn berthna sol |
| | A oes yna lety cysgu a chyfleusterau ymolchi ar wahân i ddynion a merched? | Dim yn berthna sol |
| | A yw llety'r staff yn ddigon agos at lety'r bobl ifanc er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ddigonol? | Dim yn berthna sol |
| 9. | **Is-gontractio** | |
| | Fyddwch chi'n is-gontractio unrhyw wasanaethau (e.e. cyfarwyddiadau gweithgareddau, trafnidiaeth, llety)? | Na |
| | Lle caiff unrhyw agwedd o ddarpariaeth ei is-gontractio, ydych chi'n sicrhau bod pob is-gontractwr yn bodloni'r manylebau perthnasol sydd wedi'u crybwyll yn adrannau eraill y ffurflen hon, ac a oes cofnodion o wiriadau'r isgontractwyr ar gael i'w harchwilio? | |

| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN C**<br>**I'w chwblhau os oes gweithgareddau neu astudiaethau maes ynghlwm â'r ymweliad** | | |
| 10. | **Rheoli Gweithgareddau**<br>i'w gwblhau ynghylch yr HOLL weithgareddau (nid gweithgareddau antur yn unig) | |
| | Ydych chi'n meddu ar bolisi ar gyfer recriwtio, hyfforddi ac asesu staff, sy'n sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol dros gyfranogwyr yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau? | Ydym |

| | | |
|---|---|---|
| | Ydych chi'n cynnal cod ymarfer ysgrifenedig (neu ddogfen debyg) ar gyfer gweithgareddau, sy'n gyson gyda chanllawiau unrhyw Gorff Llywodraethu Cenedlaethol (NGB) perthnasol (neu fudiad cyfatebol), ac os ydych chi dramor, rheoliadau perthnasol y wlad dan sylw? | Dim yn berthn asol |
| | Ydych chi'n cadarnhau cymhwysedd staff trwy chymwysterau priodol ar gyfer unrhyw weithgareddau antur yr ymgymerir â hwy, neu a yw cymhwysedd staff wedi'i gadarnhau gan gynghorydd technegol profiadol sydd â chymwysterau priodol? | Dim yn berthn asol |
| | Pan nad oes yna Gorff Llywodraethu Cenedlaethol neu fudiad cyfatebol ar gyfer gweithgaredd penodol, a yw'r gweithdrefnau gweithredu, a'r gofynion hyfforddi ac asesu'r staff wedi'u crybwyll mewn cod ymddygiad (neu ddogfen debyg)? | Dim yn berthn asol |
| | A fyddai modd i'r cyfranogwyr gysylltu gydag unigolyn sydd â chymhwyster cymorth cyntaf cyfredol unrhyw bryd, ac a yw'r staff wedi derbyn ymarfer ac yn gymwys mewn gweithdrefnau damweiniau ac argyfyngau? | Bydd |
| | Ydych chi'n egluro eich disgwyliadau o ran sut caiff y cyfrifoldebau ynghylch goruchwylio a lles y cyfranogwyr eu rhannu rhwng eich staff a'r staff sy'n ymweld? | Ydym |
| | A yw'r holl gyfarpar a ddefnyddir mewn gweithgareddau'n gweddu i'r dasg, wedi'i gynnal yn ddigonol yn unol â'r gofynion statudol a'r arfer da cyfredol, gyda chofnodion o'r gwiriadau cynnal a chadw fel sy'n briodol? | Ydy |

| | | |
|---|---|---|
| 11. **Trwydded Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur (AALA)**<br>i'w gwblhau os oes yna unrhyw weithgareddau sydd o fewn cwmpas y rheoliadau trwyddedu | | |
| | Cyfeirnod AALA<br>Dyddiad dod i ben | R |
| | Ydy'r drwydded yn ymdrin â'r holl weithgareddau sydd wedi'u trefnu, sydd o fewn cwmpas trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu Geithgareddau Antur? | |

| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN D**<br>**I'w gwblhau os yw eich darpariaeth o fewn y diffiniad cyfreithiol o deithio pecyn – gweler [www.gov.uk/government/publications/package-holidays-complying-with-regulations-guidance-for-businesses](www.gov.uk/government/publications/package-holidays-complying-with-regulations-guidance-for-businesses)** | | |
| 12. **Gweithredwyr Teithiau a Darparwyr Pecynnau** | | |
| | Ydych chi'n cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Gwyliau Pecyn a Theithiau Pecyn 1992, y Gorchymyn Gwyliau Pecyn Tramor (Gweithredwyr Teithiau ac Asiantaethau Teithio) 2001 a'r Rheoliadau Teithio Pecyn a Threfniadau Teithio Cysylltiedig 2018 gan gynnwys bondiau i ddiogelu arian y cwsmeriaid? | |
| | Manylion y bondiau (ATOL, ABTA, ac ati.) | |

| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN E**<br>**I'w chwblhau os oes taith dramor ynghlwm â'r ymweliad fel y diffinnir yma [oeapng.info/downloads/download-info/7q-overseas-expeditions](oeapng.info/downloads/download-info/7q-overseas-expeditions)** | | |
| 13. **Teithiau Tramor** | | |
| | Ydych chi'n cydymffurfio gyda'r Safon Brydeinig BS8848:2014? | |

| **ADRAN F – ACHREDIAD** |
|---|
| 14. **Manylion unrhyw achrediadau sydd gan y Darparwr** |
| |

| **CADARNHAD Y DARPARWR** | | | |
|---|---|---|---|
| Rwyf yn cadarnhau bod y manylion uchod yn gywir, ac y bydd ein efydliad yn rhoi hysbysiad ymlaen llaw o unrhyw newidiadau ynddynt, neu unrhyw newidiadau arwyddocaol eraill a allai effeithio ar ddiogelwch a lles grwpiau defnyddwyr. | | | |
| Llofnod |  | Dyddiad | 12/06/2026 |
| Enw | Dr Endaf ap Ieuan | Swydd | Cyfarwyddwr |
| Enw’r Darparwr | Byd Natur Pili Palas cyf | | |
| Cyfeiriad y Darparwr | Pili Palas, Ffordd Penmynydd, Porthaethwy, Ynys Mon. Ll59 5RP | | |
| Ffôn | 01248 712474 | Gwefan | https://www.pilipalas.co.uk/ |
| E-bost | info@pilipalas.co.uk | | |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | | | |
| what3Words ///darllena.hylif.bwystfil | | | |